

Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB46: Methodoleg Safleoedd Ymgeisol

Hydref 2026

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB46 Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol

Hydref 2025

Rhagair

Cam cynnar allweddol wrth baratoi'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd yw asesiad llym o safleoedd i bennu eu haddasrwydd i'w dyrannu yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Cyfeirir at y safleoedd a gyflwynir fel rhan o'r broses hon fel safleoedd ymgeisiol.

Mae ffurflen gyflwyno ar gael i hyrwyddwyr safleoedd ddarparu gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'u safle, ac mae nodiadau canllaw wedi'u cyhoeddi i gyd-fynd â'r ffurflen er mwyn helpu llenwi'r ffurflen, drwy gyfeirio hyrwyddwyr safleoedd at ffynonellau gwybodaeth allweddol i ganiatáu llenwi'r ffurflen yn gadarn.

Cynghorir hyrwyddwyr safleoedd i ystyried hefyd y weithdrefn asesu a amlinellir yn y papur hwn, sy'n ceisio sicrhau bod gweithdrefn asesu glir, dryloyw a gwrthrychol ar waith, ac sy'n golygu bod y broses yn hygyrch i bob sefydliad a pherson â buddiant. Gellir categoreiddio'r weithdrefn asesu yn ôl nifer o gamau, a bydd pob un yn cael ei archwilio'n fanylach yn yr adrannau isod.

Mae'r papur methodoleg hwn wedi'i baratoi gan roi sylw i bapur methodoleg Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (Gorffennaf 2018), a gafodd ei lunio i ddarparu cysondeb i awdurdodau cynllunio lleol yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru wrth gynnal asesiadau safle, a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020, Argraffiad 3), sy'n darparu canllawiau manwl ar y broses safleoedd ymgeisiol.

Galw am Safleoedd Posibl

Mae safle posibl yn un a gyflwynir i’r Cyngor gan rai sydd â diddordeb (e.e. datblygwr neu dirfeddiannwr) er mwyn ei gynnwys o bosibl yn ddyraniad yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl). Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn rhoi gwybodaeth am y broses o gyflwyno safleoedd posibl.

Pa fath o safleoedd y gellir eu cyflwyno?

Mae croeso i dirfeddianwyr/cynigwyr gyflwyno safleoedd i'w defnyddio yn yr amryw ffyrdd y mae'r cynllun yn darparu ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, tir ar gyfer Tai; Cyflogaeth; Manwerthu; Cyfleusterau Cymunedol; Twristiaeth a Hamdden; Ynni Adnewyddadwy; Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr; Seilwaith Trafnidiaeth; Gwastraff; Addysg; Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol; Bioamrywiaeth; Seilwaith gwyrdd; Mwynau.

Y Trothwy ar gyfer Safleoedd Posibl

Bydd y Cyngor ond yn ceisio dyrannu safleoedd ar gyfer tai sydd â'r capasiti i letya 10 annedd neu ragor, neu sydd o leiaf 0.5 Ha o ran arwynebedd gros y safle. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad 'datblygiad mawr' yn y ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref.

O ran y trothwy ar gyfer dibenion eraill, dylai'r safle allu lletya adeilad sydd ag isafswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr a/neu fod y safle yn 1 Ha neu ragor o ran arwynebedd gros y safle.

Bydd safleoedd sydd o dan y trothwy o 10 annedd/0.5 Ha at ddibenion preswyl, neu 1,000 metr sgwâr o ran arwynebedd llawr/ 1Ha at ddibenion eraill yn cael eu dosbarthu yn 'safleoedd bach'. Bydd pob safle bach a gyflwynir yn cael ei gynnwys ar Gofrestr o Safleoedd Posibl.

Bydd safleoedd bach yn gorfod bodloni ymarfer hidlo cychwynnol er mwyn eu hasesu yn erbyn cyfyngiadau mawr. Bydd safleoedd bach sy'n ffinio, neu'n agos at ffiniau aneddiadau presennol y CDLl yn cael eu hystyried yn rhan o arolwg o ffiniau aneddiadau er mwyn penderfynu a ydynt yn briodol i'w cynnwys o fewn ffin yr anheddiad, gan roi sylw i strategaeth datblygu'r Ail CDLl Newydd. Bydd safleoedd bach sy'n cael eu cynnig ar gyfer tai ac sy'n llwyddo yn yr asesiad cychwynnol hefyd yn cael eu cynnwys ar gofrestr yr awdurdod lleol o safleoedd addas ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Busnesau Bach a Chanolig a'r sector cartrefi pwrpasol a hunan-adeiladu.

Safle a gyflwynwyd yn rhan o'r CDLl a fabwysiadwyd (Hyd at 2021) neu'r CDLl Newydd a dynnwyd yn ôl (Hyd at 2031)

Yn rhan o'r adolygiad, bydd angen ailgyflwyno unrhyw safleoedd posibl a gyflwynwyd yn rhan o'r galw am safleoedd posibl ar gyfer y CDLl a fabwysiadwyd yn 2005/6 neu ar gyfer y CDLl Newydd yn 2013/14. Bydd hyn yn cynnwys ail-gyflwyno unrhyw safleoedd a ddyrennir ar hyn o bryd yn y CDLl mabwysiedig nad ydynt eto wedi'u datblygu. Os na chaiff safleoedd presennol yn y CDLl mabwysiedig eu hail-gyflwyno, ni fyddant yn cael eu hystyried ymhellach.

Pe bai safle posibl wedi ei ddiystyru o'r blaen, neu os oedd safle wedi'i ddyrannu ond nad yw wedi'i ddatblygu, dylai'r cais newydd ystyried y rhesymau pam na chafodd y safle ei ddatblygu gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol (e.e. arolygon) er mwyn

esbonio sut y gellir goresgyn unrhyw gyfyngiadau a pham y mae'r safle'n addas i'w ddyrannu.

Pa fath o safleoedd sy'n debygol o fod yn dderbyniol?

Bydd y Cyngor ond yn dyrannu safleoedd sy'n glynu wrth ganllawiau cynllunio cenedlaethol fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru (PCC) a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TAN).

Cyn cyflwyno safleoedd posibl, dylai hyrwyddwyr safleoedd fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau canlynol Dylai adeiladu tai newydd a datblygiadau newydd eraill (manwerthu, cyflogaeth ac ati) yng nghefn gwlad agored, yn bell o aneddiadau sefydledig, gael eu rheoli'n llym. Mae'n annhebygol y bydd safleoedd sy’n cael eu cynnig mewn lleoliadau ynysig, yn bell o aneddiadau diffiniedig yn dderbyniol; Ni fydd safleoedd sy'n destun dynodiadau rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth yn dderbyniol (Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Warchodfa Natur Genedlaethol); Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n agored iawn i niwed (sy'n cynnwys tai, adeiladau cyhoeddus a gwasanaethau brys) yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd.

Wrth ddewis safleoedd, mae PCC yn glir ynghylch y math o leoliadau a fydd yn dderbyniol ar gyfer datblygiad adeiledig. Yn benodol, mae'n datgan, wrth nodi safleoedd sydd i'w dyrannu mewn cynlluniau datblygu, y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddilyn trefn chwilio, gan flaenoriaethu tir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) a/neu safleoedd sydd heb eu defnyddio o fewn aneddiadau yn y lle cyntaf; yna, safleoedd tir glas addas a chynaliadwy o fewn, neu ar gyrion, aneddiadau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried safleoedd, gan gynnwys aneddiadau newydd, yng nghefn gwlad agored.

Er y bydd y Cyngor yn dal i geisio dyrannu tir ac adeiladau tir llwyd y gellir eu gwireddu yn y lle cyntaf, dylid nodi bod llawer o'r safleoedd tir llwyd mawr a ddyrennir yn y CDLl mabwysiedig presennol bellach wedi'u datblygu. Felly, bydd angen i'r Cyngor ystyried rhyddhau safleoedd tir glas ar gyrion aneddiadau lle nad oes digon o safleoedd tir llwyd y gellir eu gwireddu ar gael i fodloni gofynion y dyfodol.

Cofrestr Safleoedd Posibl

Ar ddiwedd y cyfnod Cyflwyno Safleoedd Posibl, bydd cofrestr o safleoedd a gyflwynwyd yn cael ei pharatoi. Bydd y gofrestr safle hon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Ail CDLl Newydd.

Mae'n bwysig nodi nad yw cyflwyno Safle Posibl yn arwydd o ymrwymiad ar ran y Cyngor i fynd â safleoedd ymlaen i'r Ail CDLl Newydd. Bydd safleoedd yn gorfod bodloni asesiad cadarn, a dim ond y rhai sy'n sgorio'n uchel o ran cynaliadwyedd, y gallu i gyflawni a rhai sy'n unol â Strategaeth yr Ail CDLl Newydd fydd yn cael eu dyrannu.

Cam 1 Ymarfer Hidlo Cychwynnol

Mae'r fethodoleg asesu yn berthnasol i safleoedd a gynigir ar gyfer datblygu adeiladau (e.e. tai, cyflogaeth, manwerthu). Os caiff safleoedd eu cyflwyno i'w hamddiffyn, bydd y rhain yn destun asesiad ar wahân a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad seilwaith gwyrdd.

Nodir y Weithdrefn Asesu yn Atodiad 4. Bydd yr Ymarfer Hidlo Cychwynnol yn ystyried maint y safle; y berthynas â'r anheddiad bresennol; a materion sy'n gwrthdaro â'r polisi cynllunio cenedlaethol – perygl llifogydd neu ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol o ran bioamrywiaeth.

Dim ond safleoedd sy'n bodloni'r ystyriaethau polisi lefel uchel fydd yn symud ymlaen i Gam 2.

Cam 2A Asesiad Manwl

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan bob hyrwyddwr safle yn cael ei dilysu gan dîm o swyddogion cynllunio, mewn ymgynghoriad â meysydd gwasanaeth eraill yn y Cyngor. Bydd yr asesiad manwl yn ystyried y categorïau canlynol -

Cynllunio (Adran B)

Perchnogaeth (Adran C)

Addasrwydd y Safle (Adran D), Cyflwr y safle, Llygredd, Perygl Llifogydd, Treftadaeth Naturiol, Tirwedd a Mannau Agored, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Mwynau, Treftadaeth, Cyfleustodau, Priffyrdd a Chludiant, Newid yn yr Hinsawdd, Manteision Economaidd

Cwblhau’r Safle a’i Hyfywedd (Adran E)

Defnyddir system goleuadau traffig ar gyfer sgorio'r safle, fel yr eglurir yn atodiad 2.

Lle na chyflwynwyd digon o wybodaeth, bydd safleoedd yn cael eu sgorio'n llwyd. Mae'r Cyngor o'r farn y dylai lefel yr wybodaeth a gyflwynir fod yn gymesur; yn ystod y cam cyflwyno safle cychwynnol hwn, ni ddisgwylir i'r cais safle posibl gael ei gefnogi â lefel yr wybodaeth a ddisgwylir i gefnogi cais cynllunio, er y byddai cynnwys manylion o'r fath ar hyn o bryd yn helpu i brosesu'r cais.

Fodd bynnag, os yw hyrwyddwr safle yn ymwybodol o gyfyngiad sylweddol (e.e. bod rhan o'r safle o fewn y gorlifdir, neu fod gwerth ecolegol i'r safle, neu ei fod o fewn ardal lofaol risg uchel) yna y mae er budd hyrwyddwyr y safle i gyflwyno gwybodaeth am y cyfyngiad hwn ochr yn ochr â'u cais safle. Bydd nodi unrhyw faterion yn gynnar yn helpu'r cynigydd, y Cyngor a’r ymgyngoreion statudol i nodi mesurau lliniaru priodol i fynd i’r afael â phroblemau posibl.

Rhaid i safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn yr Ail CDLl Newydd fod yn realistig, yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy; yn hyn o beth, y mwyaf o wybodaeth y gellir ei chyflwyno i ddangos bod safle'n addas, y mwyaf tebygol ydyw y bydd safle'n cael ei gynnwys.

Efallai y bydd angen rhagor o arolygon i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo safleoedd posibl yn ddiweddarach. Gall hyn gynnwys arolygon ecolegol, arolygon coedyddiaeth, asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio, asesiadau risg glofaol, asesiadau o'r effaith ar draffig, asesiadau effaith ar ansawdd yr aer, ac unrhyw wybodaeth arall y gallai fod ei hangen i ddangos bod modd gwireddu safle. Hyrwyddwr y safle sy'n gyfrifol am wneud y gwaith technegol perthnasol er mwyn cefnogi safleoedd i gael eu cynnwys yn y cynllun, gan gynnwys cyfrifoldeb am y costau ariannol.

Cam 2B – Ymgynghoriad â Darparwyr Seilwaith Allanol

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â safleoedd asiantaethau statudol, fel Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Glo, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg–Gwent, Western Power a'r National Grid, ynghylch y safleoedd hynny yr ystyrir eu bod yn addas i'w hystyried ymhellach yn dilyn asesiad manwl Cam 2A.

Gofynnir i ddarparwyr seilwaith asesu'r safleoedd a nodi unrhyw faterion posibl a pha fesurau lliniaru sy'n debygol o fod yn angenrheidiol er mwyn goresgyn y materion hyn. Os na ellir mynd i'r afael â'r mater o ran y seilwaith, neu y byddai'r gost o fynd i'r afael ag ef yn cael effaith sylweddol ar hyfywedd a chyflawnadwyedd y safle, ni fydd y safle'n cael ei ystyried ymhellach.

Cam 2C – Asesiad mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir a'r Asesiad Cynaliadwyedd Integredig

Bydd safleoedd ymgeisiol hefyd yn cael eu hasesu mewn perthynas â'r Strategaeth a Ffefrir ac amcanion yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig.

Cam 3 – Ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir

Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r asesiadau safle drafft ar gyfer pob safle a gyflwynir trwy'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. Ar y cam hwn, bydd angen cyflwyno rhagor o wybodaeth, gan gynnwys asesiadau hyfywedd ar gyfer y safleoedd hynny yr ystyrir eu bod yn addas i'w hystyried ymhellach, ac sy'n cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffefrir. Cyhoeddir rhagor o ganllawiau ar y gofynion ar gyfer yr asesiad hyfywedd ar wahân. Bydd yn bosibl cyflwyno safleoedd ymgeisiol newydd ar y cam hwn, ond dylai cyflwyniadau o ran safleoedd gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i ddangos eu bod yn gyflawnadwy ac yn hyfyw.

Yn achos unrhyw safleoedd newydd a gyflwynir, fe'u hasesir mewn perthynas â'r meini prawf a nodir yn y papur hwn.

Yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd wedi'i Adneuo

Bydd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo yn nodi'r safleoedd hynny yr ystyrir eu bod yn addas i'w dyrannu ar ôl cwblhau'r broses asesu safleoedd ymgeisiol.

Atodiad 1: Trosolwg o'r Broses Safleoedd Ymgeisiol a'r Amserlenni a Ragwelir

Ionawr - Awst 2021	Galwad Cychwynnol am Safleoedd Ymgeisiol Hyrwyddwyr safleoedd i lenwi ffurflen gyflwyno
Medi 2021	Cyhoeddi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol ar ôl cau'r alwad am safleoedd ymgeisiol CAM 1 Ymarfer hidlo cychwynnol A yw'r safle'n uwch na throthwy maint y safle? Ydy - parhau â'r asesiad. Nac ydy – ystyriwch y safle fel rhan o adolygiad y CS lle bo'n briodol. CAM 1 Ymarfer hidlo cychwynnol A yw'r safle'n bodloni'r asesiad lefel uchel cychwynnol? Ydy - parhau â'r asesiad. Nac ydy – ni fydd safleoedd â chyfyngiadau anorchfygol yn cael eu hystyried ymhellach.
Mai - Rhagfyr 2021	CAM 2 ACLl i wirio'r wybodaeth ar y ffurflen gyflwyno ac ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol
Medi 2021 – Mawrth 2022	Asesu yn erbyn y Strategaeth a Ffafrir ac amcanion y GCI
Tachwedd 2022	Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir a chyhoeddi asesiad cychwynnol o'r safle. Gellid cyflwyno safleoedd newydd ar yr adeg hon. Cais am ragor o wybodaeth fanwl (lle nas cyflwynwyd yn flaenorol) am safleoedd sy'n cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffafrir.
Ionawr 2023	Oedi paratoi cynllun i ystyried gwrthwynebiadau Llywodraeth Cymru.
Ionawr 2025	Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffafrir a chyhoeddi asesiad cychwynnol o'r safle. Gellid cyflwyno safleoedd newydd ar yr adeg hon. Cais am ragor o wybodaeth fanwl (lle nas cyflwynwyd yn flaenorol) am safleoedd sy'n cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffafrir.
Mawrth 2025	Cyhoeddi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol wedi'i diweddaru sy'n cynnwys unrhyw gyflwyniadau safle newydd.

Mawrth 2025 – Mawrth 2026	Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a statudol ynghylch safleoedd sy'n cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffafrir.
Mawrth – Gorffennaf 2026	Cwblhau'r dyraniadau i'w cynnwys yn yr 2il CDLl Newydd wedi'i Adneuo, yn seiliedig ar feini prawf asesu safleoedd.
Hydref – Rhagfyr 2026	Ymgynghoriad ar yr 2il CDLl Newydd wedi'i Adneuo Cyhoeddi asesiadau safleoedd ymgeiswyr.

Atodiad 2: Crynodeb o'r Asesiad Safle

CAM 1 – YMARFER HIDLO CYCHWYNNOL

Mae'r fethodoleg asesu yn berthnasol i safleoedd a gynigir ar gyfer datblygu adeiladau (e.e. tai, cyflogaeth, manwerthu). Os caiff safleoedd eu cyflwyno i'w hamddiffyn, bydd y rhain yn destun asesiad ar wahân a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad seilwaith gwyrdd.

A yw'r safle'n safle bach (o dan 0.5 hectar ar gyfer preswyl neu 1 hectar ar gyfer defnyddiau dibreswyl)?

Nac ydy	
Ydy – y tu allan i'r anheddiad	cynnwys o fewn y CSY. Dim asesiad pellach.
Ydy – ar gyrion yr anheddiad	cynnwys o fewn y CSY ac asesu fel rhan o'r arolwg ffiniau’r anheddiad.
Ydy – o fewn yr anheddiad presennol	cynnwys o fewn y CSY a’r gofrestr safleoedd bach. Dim asesiad pellach.

Perthynas â'r anheddiad presennol:

O fewn yr anheddiad presennol
Yn cwblhau’r anheddiad
Ar gyrion yr anheddiad
Y tu allan i'r anheddiad

Os diffinnir safle fel safle y tu allan i'r anheddiad, a'i fod yn cael ei gynnig at ddefnydd fel tai, cyflogaeth neu fanwerthu, ni fydd yn destun unrhyw asesiad pellach, gan y byddai'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu yng nghefn gwlad.

Os cynigir defnydd derbyniol yng nghefn gwlad e.e. tyrbinau gwynt, datblygiad hamdden ac ati, bydd y safle'n cael ei ystyried ymhellach.

Gwrthdaro â pholisi cynllunio cenedlaethol

Mae rhan fwyaf o'r safle o fewn ardal perygl llifogydd risg uchel ac yn cynnig defnydd bregus iawn
Mae unrhyw un o'r safle o fewn ardal ryngwladol neu genedlaethol bwysig o ran bioamrywiaeth

Casgliad

Mae'r safle'n addas i'w ystyried ymhellach
NID yw'r safle'n addas i'w ystyried ymhellach

CAM 2 – ASESIAD MANWL

Adran B – Cynllunio

Statws cynllunio cyfredol (B1)		Gwyrdd – Byddai'r defnydd yn dderbyniol mewn egwyddor (heb ei ddyrannu, o fewn ffin bresennol yr anheddiad). Ambr – Mae'r safle wedi'i ddynodi ar gyfer defnydd arall/tu allan i ffiniau'r anheddiad, ond gellid ailystyried hyn, neu mae'r safle wedi'i ddynodi at yr un defnydd ond nid yw wedi'i ddwyn ymlaen. Coch – mae'r safle wedi'i ddynodi at ddefnydd arall ac mae'n annhebygol y byddai dewis arall yn dderbyniol (e.e. safle cyflogaeth sylfaenol, ardal fanwerthu sylfaenol, ardal o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol o ran bioamrywiaeth ac ati). Llwyd – Dim digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno/mae angen eglurhad pellach.
Hanes cynllunio'r safle (B2 a B3)		Gwyrdd – Mae gan y safle drafodaethau cadarnhaol cyn-ymgeisio ar y cynnig/mae gan y safle ganiatâd cynllunio a dangosir y bydd yn cael ei weithredu. Ambr – Mae'r safle wedi cael caniatâd cynllunio o'r blaen, ond nid yw hyn wedi'i weithredu/mae

		ansicrwydd ynghylch gweithredu'r caniatâd presennol. Coch – Gwrthodwyd caniatâd i'r safle o'r blaen ar gyfer defnydd arfaethedig. Gwyn – Dim hanes cynllunio perthnasol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno/dim hanes cynllunio.
Safle ymgeisiol blaenorol (B4)		Gwyrdd – Ystyriwyd y safle fel safle ymgeisiol o'r blaen ac ni nodwyd unrhyw gyfyngiadau sylweddol. Ambr – Ystyriwyd y safle fel safle ymgeisiol o'r blaen – nodwyd cyfyngiadau ond gellid mynd i'r afael â nhw. Coch – Ystyriwyd y safle fel safle ymgeisiol o'r blaen a chafodd ei ddiystyru oherwydd cyfyngiadau. Llwyd – Nid yw'r safle wedi cael ei ystyried fel safle ymgeisiol o'r blaen.

Adran C – Perchnogaeth

Crynodeb o berchnogaeth tir (C1 i C3)		Gwyrdd – Mae'r safle'n eiddo i un tirfeddiannwr sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r safle, neu, os yw dan sawl perchnogaeth, cytunwyd ar Benawdau'r Telerau. Os yw'n dir cyhoeddus, mae o fewn strategaeth waredu a gyhoeddwyd. Ambr – Mae'r safle'n eiddo i dirfeddianwyr lluosog heb unrhyw gytundeb tystiolaeth i weithio gyda'i gilydd, neu os yw'n dir cyhoeddus, nid yw eto o fewn strategaeth waredu a gyhoeddwyd. Coch – Mae ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y safle cyfan neu ran o'r safle. Ceir tystiolaeth nad yw'r tirfeddianwyr yn ymwybodol o'r gwaith o hyrwyddo'r safle nac yn ei gefnogi.

		Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.
Cyfyngiadau Cyfreithiol (C4)		Gwyrdd – Nid oes cyfamodau cyfyngol ar waith. Ambr – Mae cyfamod cyfyngol ar waith ar ran neu'r cyfan o'r tir, ond mae'n annhebygol o effeithio ar ei ddyraniad yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Coch – Mae cyfamod ar waith a fydd yn cyfyngu ar ddatblygiad y safle at ei ddefnydd arfaethedig. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.

Adran D – Addasrwydd y Safle

Cyflwr y safle			
Tir a ddatblygwyd yn flaenorol (D1)		Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, dylid defnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen yn hytrach na thir glas. Ni fyddai statws maes glas yn atal safle yn awtomatig lle nad oes unrhyw ddewisiadau eraill ac mae'n cyd-fynd â'r strategaeth. Adlewyrchir hyn yn y sgorio. Gwyrdd – Mae'r rhan fwyaf o'r safle neu'r safle cyfan yn dir llwyd Ambr – Mae'r rhan fwyaf o'r safle neu'r safle cyfan yn faes glas Coch – Amherthnasol. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd
Cyfyngiadau ffisegol neu dopograffig (D2 a D3)		Gwyrdd – Mae'r safle'n rhydd o gyfyngiadau ffisegol neu dopograffig.	I'w llenwi gan yr asesydd. Asesydd i ymgynghori â'r Penseiri Tirwedd

		Ambr – Mae cyfyngiadau ar y safle, ond mae hyn yn annhebygol o atal datblygiad. Coch – Mae cyfyngiadau sylweddol ar y safle sy'n debygol o atal datblygiad. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Dymchwel adeiladau (D4)		Gwyrdd – Nid oes angen dymchwel. Ambr – Mae angen dymchwel adeiladau ar y safle. Coch – Amherthnasol. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd. Asesydd i ymgynghori â'r Ecolegwyr
Colli cyfleusterau hamdden neu gymunedol ffurfiol (D5)		Gwyrdd – Ni chaiff unrhyw gyfleusterau hamdden neu gymunedol ffurfiol eu colli Ambr – Byddai'r cynnig yn arwain at golli cyfleusterau hamdden neu gymunedol ffurfiol, ond nid oes eu hangen bellach, neu ystyrir y gellir eu disodli mewn mannau eraill Coch – Byddai'r cynnig yn arwain at golli cyfleusterau hamdden neu gymunedol ffurfiol annerbyniol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd

Llygredd			
Halogiad (D6)		Gwyrdd – Nid yw'r safle wedi'i halogi. Ambr – Mae rhan o'r safle neu'r safle cyfan wedi'i halogi, ond	Halogiad (D6)

		ystyrir y byddai gwaith adfer yn bosibl ac yn hyfyw. Coch – Mae’r halogiad yn gyfyngiad sylweddol a byddai'n anodd delio ag ef/annhebygol o fod yn hyfyw. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Effaith ar y safle o ddefnyddiau cyfagos (D7)		Gwyrdd – Dim pryderon amwynder o ran sŵn, arogleuon, golau na llwch. Ambr – Pryderon ynghylch llygredd o un neu fwy o ffynonellau, ond mae'n debygol y gellir lliniaru’r effeithiau. Coch – Mae llygredd o un neu fwy o ffynonellau yn gyfyngiad sylweddol ar ddatblygiad ac mae lliniaru priodol yn annhebygol o fod yn gyraeddadwy. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i Ymgynghori â’r adran Iechyd yr Amgylchedd/ Ecolegwyr/adran Cefn Gwlad
Effaith y defnydd arfaethedig ar ddefnyddiau cyfagos (D8)		Gwyrdd – Dim pryderon amwynder o'r defnydd arfaethedig Ambr – Pryderon ynghylch effaith y defnydd arfaethedig ar ddefnyddiau cyfagos, ond mae'n debygol y gellir lliniaru’r effeithiau. Coch – Byddai defnydd arfaethedig yn effeithio'n sylweddol ar ddefnyddiau cyfagos ac mae lliniaru priodol yn annhebygol o fod yn gyraeddadwy. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i Ymgynghori â’r adran Iechyd yr Amgylchedd/ Ecolegwyr/adran Cefn Gwlad

Ardal Rheoli Ansawdd Aer (D9)		Gwyrdd – Nid yw'r safle o fewn 2 gilomedr i Ardal Rheoli Ansawdd Aer Ambr – Mae'r safle o fewn 2 gilomedr i Ardal Rheoli Ansawdd Aer, ond mae Asesiad Effaith Ansawdd Aer wedi'i gyflwyno a gellir mynd i'r afael â'r effaith ar ansawdd aer drwy liniaru priodol Coch – Mae'r effaith ar ansawdd aer yn gyfyngiad sylweddol sy'n annhebygol o gael ei ddatrys drwy liniaru. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i Ymgynghori â'r adran Iechyd yr Amgylchedd
Agosrwydd at safleoedd tirlenwi (D10)		Gwyrdd – Nid yw'r safle o fewn 500m i hen safle tirlenwi, neu o fewn 500m ond nid ystyrir bod ymfudiad nwy yn risg Ambr – O fewn 500m i safle tirlenwi ac ystyrir bod ymfudiad nwy yn risg Coch – Ystyrir bod ymfudiad nwy yn gyfyngiad sylweddol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i Ymgynghori â'r adran Iechyd yr Amgylchedd

Perygl Llifogydd			
Perygl Llifogydd TAN 15 (D11)		Gwyrdd – Mae'r safle o fewn ardal perygl llifogydd TAN 15 risg isel iawn (Parth A/B o fewn TAN 15 (2004) neu Barth 1 o fewn y TAN 15 drafft (2019)) Ambr – Mae'r safle o fewn ardal llifogydd risg uwch (Parth C o fewn TAN 15 2004 neu Barthau 2 neu 3 o fewn y TAN 15 drafft	Perygl Llifogydd TAN 15 (D11)

		(2019)) ond yn dderbyniol yn unol â phrofion cyfiawnhad Coch – O fewn Parth C2 (2004) neu Barth 3 (2019) ac yn cynnig datblygiad agored iawn i niwed Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Tueddiad i lifogydd dŵr wyneb (D12)		Gwyrdd – Tueddiad isel i lifogydd dŵr wyneb neu lifogydd o ffynonellau eraill Ambr – Tueddiad canolradd/uchel i lifogydd dŵr wyneb a/neu mewn perygl o lifogydd o ffynonellau eraill, ond potensial ar gyfer lliniaru Coch – Tueddiad canolradd/uchel i lifogydd dŵr wyneb a/neu mewn perygl o lifogydd o ffynonellau eraill – yn annhebygol o gael eu datrys drwy liniaru Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Tueddiad i lifogydd dŵr wyneb (D12)
Cwlferi, cyrsiau dŵr cyffredin neu brif afonydd (D13)		Gwyrdd – Nid oes unrhyw gwlferi, cyrsiau dŵr cyffredin nac afonydd ar y safle neu'n gyfagos iddo Ambr – Mae cwlferi, cyrsiau dŵr cyffredin neu afon ar y safle neu'n gyfagos iddo, ond mae'n bosibl mynd i'r afael â chyfyngiadau fel rhan o ddyluniad y safle. Coch – Mae’r cwlferi, cyrsiau dŵr cyffredin neu’r afon sydd ar y safle neu'n gyfagos iddo yn gyfyngiad sylweddol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Cwlferi, cyrsiau dŵr cyffredin neu brif afonydd (D13)

Treftadaeth Naturiol			
Ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol o ran bioamrywiaeth (D14)		Gwyrdd – Dim effaith ar Ardal Gadwraeth Arbennig na SoDdGA Ambr – Mân effaith ar Ardal Gadwraeth Arbennig neu SoDdGA ond gellid lliniaru'n briodol i beidio ag effeithio ar nodweddion y safle. Coch – Bydd datblygu yn effeithio'n sylweddol ar ardal o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol o ran bioamrywiaeth Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â'r Ecolegwyr/adran Cefn Gwlad
Safleoedd lleol dynodedig o ran bioamrywiaeth (D15)		Safleoedd ymgeisiol i gael eu hasesu yn erbyn dynodiadau cyfredol yn y CDLl mabwysiedig, gan gydnabod y gellir diwygio'r dynodiadau hyn drwy'r broses 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Gwyrdd – Dim effaith ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol Ambr – Effaith bosibl ar Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur neu Warchodfa Natur Leol ond ni fyddai'n atal datblygiad pe bai mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith Coch – Bydd datblygiad yn effeithio'n sylweddol ar safle sydd wedi'i ddynodi'n lleol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â'r Ecolegwyr/adran Cefn Gwlad

Rhywogaethau, cynefinoedd, cerrig camu neu goridorau bywyd gwyllt gwarchodedig neu sydd â blaenoriaeth (D16 a D17)		Gwyrdd – Dim effaith ar rywogaethau, cynefinoedd, cerrig camu neu goridorau bywyd gwyllt gwarchodedig neu sydd â blaenoriaeth, neu â'r potensial i wella Ambr – Effaith bosibl ond ni fyddai'n atal datblygiad pe bai mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith Coch – Bydd datblygiad yn effeithio'n sylweddol ar rywogaethau, cynefinoedd, cerrig camu neu goridorau bywyd gwyllt gwarchodedig neu sydd â blaenoriaeth Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â'r Ecolegwyr/adran Cefn Gwlad

Tirwedd a Mannau Agored			
Dynodiadau Tirwedd Leol (D18)		Safleoedd ymgeisiol i gael eu hasesu yn erbyn dynodiadau cyfredol yn y CDLl mabwysiedig, tra'n cydnabod y gellir diwygio'r dynodiadau hyn drwy'r broses 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Gwyrdd – Nid yw'r safle o fewn ardal sydd wedi'i dynodi'n Ardal Dirwedd Arbennig neu'n Dirwedd Leol sy'n Weledol Bwysig o fewn y CDLl mabwysiedig, neu mae'r defnydd arfaethedig yn un a fyddai'n gydnaws â'r dynodiad hwn	Dynodiadau Tirwedd Leol (D18)

		Ambr – Effaith bosibl ar ardal, a ddynodwyd yn Ardal Dirwedd Arbennig neu'n Dirwedd Leol sy'n Weledol Bwysig o fewn y CDLl mabwysiedig, ond ni fyddai'n atal datblygiad pe bai mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith Coch – Byddai datblygiad yn niweidio'n sylweddol nodweddion yr Ardal Dirwedd Arbennig neu Dirwedd Leol sy'n Weledol Bwysig sy'n nodedig neu nodweddiadol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Lletem Werdd (D19)		Safleoedd ymgeisiol i gael eu hasesu yn erbyn dynodiadau cyfredol yn y CDLl mabwysiedig, tra'n cydnabod y gellir diwygio'r dynodiadau hyn drwy'r broses 2il Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Gwyrdd – Nid yw o fewn lletem werdd ar hyn o bryd, nac o fewn lleoliad lle gallai fod angen lletem werdd yn y dyfodol. Ambr – Mae ar hyn o bryd o fewn lletem werdd ond ni fyddai datblygu'r safle hwn yn niweidio'n sylweddol y natur agored a/neu arwain at gyfuniad rhwng aneddiadau Coch – Byddai datblygiad yn effeithio'n sylweddol y natur agored a/neu arwain at gyfuniad rhwng aneddiadau Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Lletem Werdd (D19)

Gorchmynion Cadw Coed (D20)		Gwyrdd – Nid oes Gorchmynion Cadw Coed ar y safle nac yn gyfagos iddo Ambr – Mae cyfyngiadau ar ran o'r safle y byddai angen eu hystyried wrth ddylunio yn y dyfodol Coch – Mae cyfyngiadau'n ddigon sylweddol i atal datblygiad y safle cyfan Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Gorchmynion Cadw Coed (D20)
Coetiroedd, Coed neu Wrychoedd (D21)		Gwyrdd – Dim effaith ar goetir, coed na gwrychoedd Ambr – Mae cyfyngiadau ar ran o'r safle y byddai angen eu hystyried wrth ddylunio yn y dyfodol Coch – Mae cyfyngiadau'n ddigon sylweddol i atal datblygiad y safle cyfan Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Coetiroedd, Coed neu Wrychoedd (D21)
Tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (D22)		Gwyrdd – Nid yn dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (Gradd 1, 2 neu 3a) Ambr – Mae rhan o'r safle yn dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, ond gellid lliniaru unrhyw golled Coch – Byddai datblygu'r safle yn arwain at golli tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (D22)
Mannau agored		Gwyrdd – Ni chaiff mannau agored anffurfiol, y gellir eu	Mannau agored anffurfiol (D23)

anffurfiol (D23)		defnyddio, eu colli o fewn ffiniau’r anheddiad Ambr – Byddai'r cynnig yn arwain at golli man agored anffurfiol y gellir ei ddefnyddio, ond nid oes ei angen bellach, neu gellid ei ddisodli mewn mannau eraill Coch – Byddai'r cynnig yn arwain at golled annerbyniol o ran man agored anffurfiol y gellir ei ddefnyddio Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	

Hawliau Tramwy Cyhoeddus			
Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu Hawlio Hawl Tramwy (D24)		Gwyrdd – Dim effaith ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus Ambr – Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar y safle neu'n gyfagos iddo a allai fod yn gyfyngiad i ddatblygiad Coch – Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gyfyngiad sylweddol sy'n debygol o atal datblygiad Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â’r Swyddog Hawliau Tramwy/adran Cefn Gwlad

Mwynau			
Ardaloedd Atgyfeirio Datblygu Mwyngloddio Glo (D25)		Gwyrdd – Nid o fewn Ardal Atgyfeirio Datblygu Mwyngloddio Glo Ambr – O fewn Ardal Atgyfeirio Datblygu Mwyngloddio Glo ond	Ardaloedd Atgyfeirio Datblygu Mwyngloddio Glo (D25)

		dangoswyd bod y risgiau'n isel a/neu y gellir eu lliniaru Coch – O fewn Ardal Atgyfeirio Datblygu Mwyngloddio Glo a heb dystiolaeth bod y risgiau'n isel a/neu y gellir eu lliniaru Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Adnoddau Mwynau (D26)		Gwyrdd – Nid o fewn ardal ddiogelu (tywodfaen neu galchfaen), ardal o ddiogelu tywod a graean neu lain glustogi mwynau Ambr – O fewn ardal ddiogelu (tywodfaen neu galchfaen), ardal o ddiogelu tywod a graean, neu lain glustogi ar gyfer chwarel segur Coch – Byddai'r cynnig yn effeithio ar lain glustogi chwarel weithredol neu segur Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Adnoddau Mwynau (D26)

Treftadaeth			
Adeiladau rhestredig (D27)		Dim adeiladau rhestredig, na'r rhai a restrir yn rhinwedd cwrtil, o fewn neu yn agos at y safle Ambr – Mae adeiladau rhestredig, neu rai a restrir yn rhinwedd cwrtil, o fewn neu yn agos at y safle, ond gellid lliniaru'r effaith Coch – Byddai datblygu'r safle yn niweidio’n sylweddol lleoliadau adeilad(au) rhestredig, neu rai a restrir yn rhinwedd cwrtil	I'w llenwi gan yr asesydd. Os yw adeiladau rhestredig ar y safle neu'n agos ato, ymgynghorwch â'r swyddog cadwraeth a’r Ecolegwyr

		Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Ardaloedd cadwraeth (D28)		Gwyrdd – Nid yw'r safle o fewn neu'n agos at ardal gadwraeth, neu ni fyddai'n effeithio ar ei leoliad Ambr – Mae'r safle o fewn neu'n agos at ardal gadwraeth neu ei leoliad, ond gellid lliniaru'r effeithiau ar y niwed i'r ardal gadwraeth neu ei lleoliad Coch – Byddai datblygu'r safle yn niweidio'n sylweddol cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth neu ei lleoliad Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd. Os o fewn neu'n agos at ardal gadwraeth, cysylltwch â'r Swyddog Cadwraeth. Os bydd unrhyw Goed mewn ardal Gadwraeth yn debygol o gael eu heffeithio, cysylltwch â'r Swyddog Coed
Henebion Cofrestredig (D29)		Gwyrdd – Dim Heneb Gofrestredig o fewn nac yn agos at y safle. Diffinnir agosrwydd gan CADW[1] fel: O fewn 0.5 cilomedr i berimedr Heneb Gofrestredig O fewn 1 cilomedr os yw arwynebedd y safle yn 0.2 hectar neu fwy O fewn 2 gilomedr os yw arwynebedd y safle yn 0.5 hectar neu fwy O fewn 5 cilomedr os yw arwynebedd y safle yn 1 hectar neu fwy Ambr – Mae Heneb Gofrestredig yn agos, ond gellid lliniaru'r effaith	I'w llenwi gan yr asesydd. Os yw Heneb Gofrestredig ar y safle neu'n agos iddo, cysylltwch â'r Swyddog Cadwraeth

		Coch – Byddai datblygu'r safle yn niweidio’n sylweddol Heneb Gofrestredig Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru (D30)		Gwyrdd – Safle nad yw o fewn neu'n agos at ardaloedd a nodir ar y Gofrestr Ambr – Effaith bosibl ond ni fyddai'n atal datblygiad pe bai mesurau lliniaru priodol yn cael eu rhoi ar waith Coch – Bydd datblygu yn effeithio'n sylweddol ar ardal ar y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd. Os yw Tirwedd, Parc neu Ardd ar y Gofrestr ar y safle neu’n gyfagos ato, ymgynghorwch â’r Swyddog Cadwraeth

Cyfleustodau			
Cyfleustodau (D31)		Gwyrdd – Nid oes cyfyngiadau wedi'u nodi wrth ddarparu cyfleustodau Ambr – Nodwyd cyfyngiadau, ond gellir mynd i'r afael â'r rhain yng nghyfnod y cynllun Coch – Mae cyfyngiadau sylweddol, sy'n annhebygol o gael eu goresgyn Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w gwblhau gan yr asesydd.

Priffyrdd a Chludiant			
Agosrwydd at safle trafnidiaeth gyhoeddus – bysiau (D32a)		Gwyrdd – O fewn 400m i safle bysiau gweithredol Ambr – Rhwng 400m ac 800m o safle bysiau gweithredol Coch – Dros 800m o safle bysiau gweithredol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â'r adran Briffyrdd
Agosrwydd at safle trafnidiaeth gyhoeddus – trenau (D32b)		Gwyrdd – O fewn 500m i orsaf drenau Ambr – Rhwng 500m a 2 gilomedr o orsaf drenau Coch – Dros 2 gilomedr o orsaf drenau Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Agosrwydd at lwybrau teithio llesol presennol neu arfaethedig (D33)		Gwyrdd – Mae cysylltiad da rhwng y safle a llwybrau teithio llesol presennol neu arfaethedig (o fewn 400m) Ambr – Mae cysylltiad digonol rhwng y safle a llwybrau teithio llesol presennol neu arfaethedig (rhwng 400m ac 800m) Coch – Mae cysylltiad gwael rhwng y safle a llwybrau teithio llesol presennol neu arfaethedig (dros 800m) Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â'r adran Briffyrdd
Addasrwydd mynediad (D34)		Gwyrdd – Mae'r mynediad presennol neu arfaethedig yn addas Ambr – Byddai'r mynediad presennol neu arfaethedig yn	Asesydd i ymgynghori â'r adran Briffyrdd/ Swyddog Hawliau Tramwy

		addas, yn amodol ar welliannau lleol Coch – Mae’r mynediad presennol neu arfaethedig yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygiad Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Mynediad i rwydwaith priffyrdd strategol, ffordd sirol neu ffordd ddosbarthu (D35)		Gwyrdd – Ni fyddai angen mynediad uniongyrchol ar y safle i'r rhwydwaith priffyrdd strategol. Ambr – Byddai mynediad i'r safle yn dod o ffordd sirol neu ffordd ddosbarthu. Gall hyn effeithio ar ddyluniad a chynllun unrhyw ddatblygiad Coch – Byddai angen mynediad i rwydwaith priffyrdd strategol. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â’r adran Briffyrdd
Yr angen am welliannau seilwaith ychwanegol gan gynnwys mynediad (D36)		Gwyrdd – Nid oes angen unrhyw welliannau seilwaith ychwanegol Ambr – Mae lefel y gwelliannau seilwaith sydd eu hangen yn sylweddol, ond nid yw'r rhain yn debygol o atal datblygiad Coch – Mae lefel y gwelliannau seilwaith sydd eu hangen yn sylweddol ac mae pryderon ynghylch hyfywedd Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Asesydd i ymgynghori â’r adran Briffyrdd/ Swyddog Hawliau Tramwy
Cynhyrchu lefelau sylweddol o		Gwyrdd – Nid oes gofyniad am Asesiad Trafnidiaeth, neu bod yr Asesiad Trafnidiaeth sydd wedi'i gyflwyno yn dderbyniol	Asesydd i ymgynghori â’r adran Briffyrdd

symud traffig (D37)		Ambr – Gellid mynd i'r afael ag effaith ar draffig drwy liniaru priodol Coch – Mae'r traffig y bydd y datblygiad yn ei gynhyrchu yn gyfyngiad sylweddol, sy'n annhebygol o gael ei ddatrys drwy liniaru Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	Yr Adran Briffyrdd i ddweud a fyddai angen Cynllun Teithio

Newid yn yr Hinsawdd			
Cynnwys technolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon (D38)		Gwyrdd – Cynigir i'r datblygiad fod yn ddi-garbon Ambr – Cynigir rhai technolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon Coch – Ni chynigir unrhyw dechnolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd.
Lliniaru yn erbyn newid yn yr hinsawdd (D39)		Gwyrdd – Nodwyd mesurau lliniaru. Ambr – Rhoddwyd rhywfaint o ystyriaeth i faterion lliniaru, ond mae angen ystyriaeth bellach Coch – Ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i faterion lliniaru Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd. Asesydd i ymgynghori â'r Penseiri Tirwedd/adran Cefn Gwlad

Manteision Economaidd			

Manteision economaidd (D40)		Gwyrdd – Potensial ar gyfer manteision economaidd sylweddol o'r cynnig Ambr – Potensial ar gyfer rhai manteision economaidd Coch – Annhebygol o ddarparu manteision economaidd/tebygol o gael effaith economaidd andwyol Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd.

Materion Eraill	
Bydd yr asesiad o hyn yn dibynnu ar natur y materion a godwyd.	I'w llenwi gan yr asesydd.

Adran E – Cwblhau’r Safle a’i Hyfywedd

Argaeledd safle (E1)		Gwyrdd – Mae'r safle ar gael nawr Ambr – Mae'r safle wedi'i feddiannu ar hyn o bryd, ond rhagwelir y bydd ar gael yn ystod cyfnod y cynllun Coch – Mae'r safle wedi'i feddiannu ar hyn o bryd, ac nid yw'n glir a fydd ar gael yn ystod cyfnod y cynllun. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd.
Amserlenni ar gyfer cwblhau (E2 ac E3)		Gwyrdd – Nodwyd amserlenni realistig ar gyfer cwblhau’r safle Ambr – Rhagwelir y gellir cwblhau’r safle yn ystod cyfnod y cynllun, ond mae angen rhoi	I'w llenwi gan yr asesydd.

		ystyriaeth bellach i amserlenni arfaethedig Coch – Ni ddangoswyd yn ddigonol y bydd y safle'n cael ei gwblhau yn ystod cyfnod y cynllun Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	
Diddordeb datblygwr (E4)		Gwyrdd – Mae tystiolaeth o ddiddordeb datblygwr Ambr – Nid oes diddordeb datblygwr wedi'i nodi ar hyn o bryd Coch – Amherthnasol. Llwyd – Nid oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno.	I'w llenwi gan yr asesydd.